# **Astudiaeth achos:** Ghana

Enwau: Musah a Fatimata Ziblim

Oedran: Mae Musah yn 13 a Fatimata yn 11

Yn byw yn: Ghana, gorllewin Affrica

Y broblem : Mae Ghana yn wlad dlawd a does dim digon o ysgolion i bawb. Doedd Musah a Fatimata ddim yn medru mynd i'r ysgol am fod yr ysgol agosaf i'w pentref nhw sawl awr o gerdded i ffwrdd.

## Beth ddigwyddodd:

Mae SEND yn sefydliad sy'n derbyn arian gan elusen o'r enw Cymorth Cristnogol. Helpodd SEND y bobl ym mhentref Musah a Fatimata i ofyn i'w llywodraeth i sefydlu ysgol. Fe gymerodd amser a gwaith caled, ond fe wnaeth y llywodraeth dalu am adeiladu ysgol.

## Sut mae pethau wedi newid:


Gall Musah a Fatimata fynd i'r ysgol nawr ac mae ganddynt obeithion mawr am eu dyfodol. Meddai Fatimata: 'Dwi wir eisiau bod yn yr ysgol. Dwi'n credu ei fod yn lles i fi achos bydd yn golygu y gallaf gael swydd a phrynu pethau i fi a 'nheulu.'

## Beth arall hoffen nhw ei newid:

Meddai Musah: 'Beth fyddai'n fy ngwneud i hapusaf yw petai pob plentyn yn Ghana yn medru mynd i'r ysgol.

## Ffeithiau am Ghana

- Prifddinas Ghana yw Accra
- Hoffai Musah fod yn ffarmwr pan yn hŷn. Ym mhentref Musah a Fatimata maen nhw'n tyfu tomatos a chnau daear (groundnuts).
- Arian Ghana yw'r Ghana cedi.
- Prif grefyddau Ghana yw Cristnogaeth, Islam a rhai crefyddau traddodiadol.
- Iaith swyddogol Ghana yw Saesneg, ond mae nifer o ieithoedd eraill yn cael eu siarad hefyd.
- Mae addysg am ddim i blant mewn Ysgolion Cynradd ac Ysgol Ganol yn Ghana ond rhaid i'r disgyblion dalu am wisg ysgol, llyfrau ac offer ysgrifennu.







© Cymorth Cristnogol, Mawrth 2008

# **Astudiaeth achos:** Guatemala

Enwau: Tirza a Bianka Barán Cornejo

Oedran: Mae Tirza yn 9 a Bianka yn 6

Yn byw yn: Dinas Guatemala, Guatemala

Y broblem: Bu rhyfel yn Guatemala am lawer o flynyddoedd. Mae wedi gorffen erbyn hyn ond mae sawl ardal yn dlawd ac mae yna lawer o bobl ifanc yn ymuno â gangiau sy'n medru bod yn dreisgar a pheryglus.

## Beth ddigwyddodd:

Dechreuodd Caja Lúdica, sefydliad sy'n gweithio gyda Cymorth Cristnogol, drefnu carnifalau a dosbarthiadau celf i helpu pobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau heddychlon, llawn sbort. Dechreuodd Caja Lúdica hefyd ddefnyddio hen adeilad i gynnal eu gweithdai fel bod gan bobl le i ddysgu sgiliau newydd.

Mae Caja Lúdica yn rhedeg pob math o ddigwyddiadau a dosbarthiadau o ddawnsio a cherdded ar stilts, i acrobateg ac actio. Mae Tirza a Bianka yn mynd i'r gweithdai ac yn mwynhau'r carnifalau a'r sioeau.

Meddai Tirza: 'Byddwn yn gwisgo lan a gorymdeithio, dawnsio a martsio. Mae yna bobl ar stilts a llawer o bethau eraill. Dawnsio sydd orau gen i.'

## Sut mae pethau wedi newid:

Mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn nigwyddiadau Caja Lúdica yn dysgu byw'n heddychlon gyda'i gilydd ac mae hyn yn lleihau'r trais. Fel mae Tirza yn egluro: 'Dwi'n teimlo'n falch pan fydda'i ar y llwyfan yn dawnsio. Heb y gwersi dawnsio fe fyddwn yn bored.'

## Beth yw'r peth gorau a'r peth gwaethaf ynglŷn â byw yn Guatemala?

Dywed Tirza : 'Y peth gorau yw'r celfyddydau. Y gwaethaf yw'r trais.'

## Ffeithiau am Guatemala

- Prifddinas Guatemala yw Dinas Guatemala.
- Arian Guatemala yw'r quetzal.
- Sbaeneg yw prif iaith Guatemala
- Daeth rhyfel i ben yn Guatemala yn 1996. Ond mae yna o hyd ardaloedd tlawd, a elwir yn 'ardaloedd coch' ble mae llawer o drais.
- Mae Bianka a Tirza yn hoffi chwarae 'matado', sydd fel dodgeball.
- Hoff fwyd Bianka yw cyw iâr wedi ei ffrïo a 'sglodion, a hoff fwyd Tirza yw sbageti a saws a salad ffrwythau sy'n cynnwys banana, melon, melon ddŵr a papaya.
- Yn eu tŷ mae gan Tirza a Bianka trydan a thoiled ond dim teledu. Maen nhw'n prynu eu dŵr o'r lori ddŵr.



Christian Aid/Sian Curry




© Cymorth Cristnogol, Mawrth 2008